# Bywydeg a rheolaeth plâu'r pridd

Mae'r rhan fwyaf o gnydau sy'n tyfu yn y DU yn cynnig llety i bla pryfed unigol neu luosog sy'n bwydo ar y planhigyn ar ryw adeg yn ei gylch bywyd. Nid pla pryfed yw'r term manwl gywir oherwydd bod y plâu'n dod o amrywiaeth eang o deuluoedd neu grwpiau gan gynnwys *Coleoptera* (chwilod), *Diptera* (gwir bryfed), *Lepidoptera* (ieir bach yr haf a gwyfynod), Molwsgiaid (gwlithod a malwod) a Nematodau.



**Bresych wedi'u difa gan larfau'r pryf gwraidd bresych**

Gall plâu ymosod ar gnydau ar sawl adeg yn ystod eu twf o'r hedyn heb ei egino a gwreiddiau ifainc, drwodd i'r coesynnau ifainc, tyner, hyd at y cynhaeaf ac, mewn rhai achosion, yn ystod y cyfnod cadw. Amrywia canlyniadau ymosodiad o ychydig leihad yn ymnerth y planhigyn i'w farwolaeth yn gyfan gwbl, a chanlyniad y ddau yw gostyngiad yn y cynnyrch. Er, efallai, na fydd ymosodiad gan bla'n effeithio'n uniongyrchol ar y cynnyrch, gall ansawdd y cynnyrch gael ei andwyo'n sylweddol, er enghraifft, hoelion daear/pryfed weiren mewn tatws.

Bydd plâu'n bwydo mewn gwahanol ffyrdd ac felly yn cenhedlu ar amrywiaeth o gnydau. Mewn rhai achosion, gall hyn fod yn amrywiaeth eithaf cyfyng, er enghraifft, y pryf moron sy'n bla i foron, seleri, pannas a phersli. Bydd gwlithod ar y llaw arall yn bwydo ar bron unrhyw blanhigyn cnwd.

**Y Plâu Mwyaf**

Y Pryf Gwraidd Bresych
Y Cynrhonyn Lledr
Y Llyngyr Codennau Tatw
Gwlithod a Malwod
Gwiddon y Winwydden
Hoelion Daear

**Y Plâu Lleiaf**

Pryfed Hadau Ffa
Y Pryf Moron
Chwilod
Chwilen Datws
Cymynwyr
Nematodau Rhyddion
Llysleuen Gwraidd Letys
Nadroedd cantroed a miltroed
Y Pryf Nionod
Chwimwyfyn
Symfflidiaid
Meisgyn Bustl Maip
Gwiddon Di-asgell



**Mae archwilio'r cnwd yn gyson yn rhan bwysig o reoli plâu**

Heb y dewis o ddefnyddio pryf-/molysgladdwyr sy'n gweithredu yn y pridd, mae rheoli plâu'n effeithiol mewn system organig yn dibynnu i raddau helaeth ar ddulliau diwylliol a mesurau bio-reolaeth.




*Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL. Ffon 01970 622248*
*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill*

## Mae rheolaeth ddiwyllio effeithiol ar unrhyw bla'n gofyn am:

- Adnabod y pla'n gywir
- Deall cylch bywyd y pla
- Ymelwa ar unrhyw wendidau yng nghylch bywyd y pla
- Sicrhau'r cylchdroadau gorau
- Defnyddio asiantau bio-reolaeth megis nematodau parasitig lle bo'n briodol
- Gwella cynefinoedd ar gyfer pryfed llesol megis carabidau sy'n bwydo ar wlithod
- Ystyried defnyddio rhwystrau ffisegol ar gyfer cnydau a all gael eu heffeithio neu sy'n werthfawr iawn.

**Allwedd syml i adnabod plâu'r pridd**




## Gwybodaeth bellach

### Llyfrau ac erthyglau

- David Frost (2003) *Review of pest and weed control in organic systems*, Canolfan Organig Cymru
- Marion Gratwick, *Crop Pests in the UK – Collected edition of MAFF leaflets,* MAFF / ADAS Published by Chapman & Hall, London 1992

### Gwefannau

- Cyber-Help for Organic Farmers **(UDA)** , http://www.certifiedorganic.bc.ca/rcbtoa/training/pestmanagement.htm
- Database of IPM Resources **(UDA)** http://ippc.orst.edu/DIR/index.htm
- Henry Doubleday Research Association http://www.hdra.org
- Organic Integrated Pest Management **(UDA)** http://www.attra.org/attra-pub/summaries/organic_ipm.html.
- The *Pest Bulletin,* HDC. http://www2.warwick.ac.uk/fac/sci/hri2/hdcpestbulletin/,:

Dylid nodi y gall gwefannau o'r UDA ddangos cylchau bywyd, amserau gwaith rheoli ac ati sydd ddim yn addas i Gymru



*Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL. Ffon 01970 622248*

*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill*